Tymor yr Hydref

Blwyddyn 5 a 6

Thema'r Tymor: Ni ein Hunain

Cymraeg

Byddwn yn darllen "Zac yn y Pac" gan Gwyn Morgan gan wneud gweithgareddau amrywiol ar y llyfrau gan gynnwys portread, ffeiloffaith a llythyr. Byddwn yn amrywio tasgau llafar, darllen ac ysgrifennu gan ehangu ar ein sgiliau darllen grŵp.

Saesneg

Darllen "Danny Champion of the World" gan Roald Dahl y byddwn yn ystod y tymor. Byddwn yn creu proffil o'r awdur gan gymharu'r ffilm a'r llyfr. Byddwn yn ysgrifennu dyddiadur, adolygiad o'r llyfr, disgrifio'r garafán, a chymeriadau'r stori. Byddwn yn edrych ar storïau o'r newyddion ac yn ymateb iddynt.

Mathemateg

Byddwn yn dysgu ffeithiau lluosi ac yn cynnal cwis wythnosol. Yn ogystal byddwn yn defnyddio'r pedwar rhif yn ystod y tymor , gwaith ffracsiynau, degolion a chanrannau. Byddwn yn darganfod cyfartaledd rhifau gan gynnwys y modd ac yn edrych ar amser digidol ag analog, rhifau negyddol a chwestiynau ar drefn rhifau.

Yn ystod yr hanner tymor cyntaf byddwn yn edrych ar "Siâp, safle a symud" . Byddwn yn gwneud siapiau 2D a 3D yn fwyfwy manwl gywir. Byddwn yn edrych ar briodweddau'r siapiau megis ongl, ochrau, cymesur ac adlewyrchiad. Yn ystod yr ail hanner tymor byddwn yn edrych ar drin data. Bydd y plant yn casglu data, defnyddio a chyflwyno data mewn nifer o ffyrdd.

Gwyddoniaeth

Y Corff bydd prif thema'r tymor ac mi fyddwn yn dysgu am bwysigrwydd diet cytbwys, y dannedd a'u swyddogaeth, gwaith y sgerbwd a'r cyhyrau ac yn dysgu am gylch bywyd y cylch dynol. Byddwn yn enwi ac yn gwybod beth yw swyddogaeth wahanol organau'r corf gan gynnwys y gallon a sut mae cyffuriau gwahanol yn effeithio ar iechyd ein cyrff.

Hanes

Oes y Celtiaid neu Oes yr Haearn bydd ein thema am y tymor. Byddwn yn adolygu'r hyn a wyddant am Y Celtiaid ac yn darganfod o le ddaethant, sut gymdeithas oedd ganddynt, pa grefydd oedd ganddynt, beth oedd eu harferion claddu a sut oeddent yn dathlu. Byddwn yn cymharu nhw gyda ni ein hunain hefyd. Byddwn yn ymweld â Chastell Henllys.

Daearyddiaeth

Dysgu am sut le yw Botswana ac yn arbennig Gweta fyddwn yn ystod y tymor a'u gymharu gyda Chymru. Byddwn yn astudio'r bobl, bwyd, arferion dyddiol, y tywydd a'i leoli gan ddefnyddio glôb ag atlas. Byddwn yn dysgu am y cyfandiroedd a'r moroedd cyfagos ac yn dychmygu'r daith o Gymru i Fotswana.

Celf a Dylunio

Tirluniau bydd ein thema am y tymor ac mi fyddwn yn edrych ar waith Catrin Webster a Mary Lloyd Jones. Byddwn yn defnyddio paent i greu'r tirluniau ac yn creu'r lliwiau cywir i greu'r tirluniau. Byddwn yn edrych ar nodweddion ac yn gweld sut allwn ni ail greu'r nodweddion yma.

Dylunio Technoleg

Byddwn yn edrych ar y wahanol fathau o bitsa sydd ar gael, hoff flasau pitsa, gwerth maeth pitsa, dylunio a chreu pitsa ac wedyn edrych nôl i werthuso'r pitsa. Mmmm!!

TGCh

Mi fyddwn yn e-bostio'n gilydd yn ystod y tymor ac yn ceisio danfon atodiad. Byddwn yn edrych ar y we i atgyfnerthu ein gwaith ac yn edrych am ffeithiau ychwanegol i ehangu ein gwaith. Byddwn yn creu bas data ac yn creu cwestiynau ar rai parod.

Cerddoriaeth

Byddwn yn dysgu cân ar gyfer diolchgarwch "Samba'r Cynhaeaf". Byddwn yn edrych ar dôn gron draddodiadol, byddem yn cyfansoddi synau tywydd. Byddem yn edrych ar waith rhythm a chyfansoddi gydag offer taro. Yn ogystal ag hyn byddwn yn paratoi ar gyfer ein cyngerdd Nadolig.

Addysg Grefyddol

Byddwn yn adolygu bod yna lawer o grefyddau gwahanol yn y byd. Byddwn yn edrych ar reol bwysig "Caru Duw a dy gymydog fel ti dy hun". Byddwn yn edrych ar Gristnogion penodol. Byddwn yn astudio "Y Gweiddi Arglwydd" yn fanwl ac yn edrych ar y ffordd Fwslimaidd o fyw.

Addysg Gorfforol

Byddwn yn nofio yn ystod y tymor, atgyfnerthu ein sgiliau pêl yn cynnwys, pêl droed, pêl rhwyd, rygbi a hoci. Byddwn hefyd yn defnyddio'r neuadd ym Morth i addysgu am gymnasteg. Byddwn hefyd yn parhau gyda'n ffitrwydd drwy wneud trawsgwlad ac yn cynnal sesiwn gweithgaredd antur.

ABCh

Cyflwyno’r syniad o lasoed a sut mae’r corff dynol yn newid. Byddwn yn dysgu am gyffuriau diogel a rai peryglus ac yn cynnal trafodaeth am y peryglon. Byddwn yn hefyd yn trin teimladau pobl eraill gan feddwl am deimladau eraill wrth gael eu trin a thanlinellu pwysigrwydd trin pobl eraill fel maen nhw am gael eu trin.